Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




Rhifyn 300 (Cymru) - 21 Ebrill 2021

### Etholiadau mis Mai 2021: Ffurflen gais am bleidlais drwy ddirprwy brys oherwydd COVID-19

Ymhellach at Fwletin 297, mae ffurflen gais am bleidlais drwy ddirprwy brys oherwydd COVID-19 bellach ar gael i'w defnyddio at etholiadau mis Mai.

Bydd y ffurflen yn galluogi etholwyr i wneud cais am y canlynol:

- dirprwy brys, os ydynt yn hunanynysu
- penodi dirprwy newydd os yw eu dirprwy cyfredol yn hunanynysu

Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol nodi y bydd dirprwy newydd a benodir oherwydd COVID-19 gan etholwr sydd â threfniant dirprwy parhaol ar waith yn parhau i fod yn ddirprwy penodedig iddynt ar gyfer etholiadau'r dyfodol. Er bod y ffurflen yn nodi hyn yn glir, gallech hefyd gysylltu ag etholwyr o'r fath ac egluro'r sefyllfa, ac esbonio y bydd angen iddynt wneud cais pellach i ail-benodi eu dirprwy gwreiddiol.

Gallwch ddod o hyd i'n canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar gyfer prosesu ceisiadau am ddirprwy fan hyn. Megis pob tro, bydd yn bwysig i chi brosesu ceisiadau newydd mor fuan ag y bo'n ymarferol bosib i sicrhau bod eich rhestrau pleidleiswyr absennol yn gyfredol, ac eu bod ar gael i ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol ar gais.

### Etholiadau mis Mai 2021: adnoddau newydd ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol - llenwi eich pleidlais bost

Gan ein bod yn disgwyl cynnydd yn y niferoedd sy'n dewis pleidleisio trwy'r post, yn yr etholiadau ar ddod rydym wedi datblygu templedi a graffigau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth ynghylch sut mae llenwi eich pleidlais bost, a gallwch ddefnyddio'r rhain ar draws eich sianeli digidol.

### Etholiadau mis Mai 2021: cefnogi pleidleiswyr sydd wedi colli eu golwg

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Etholiadau mis Mai 2021: Ffurflen gais am bleidlais drwy ddirprwy brys oherwydd COVID-19**

Gwybodaeth am ffurflen gais ar gyfer penodi dirprwy brys oherwydd COVID-19, a dolen ati.

**Etholiadau mis Mai 2021: adnoddau newydd ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol - llenwi eich pleidlais bost**

Dolen i dempledi a graffigau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth am sut mae llenwi pleidleisiau post.

**Etholiadau mis Mai 2021: cefnogi pleidleiswyr sydd wedi colli eu golwg**

Dolen i ganllaw a fideo gyda chynghorion i helpu staff gorsafoedd pleidleisio i gefnogi pleidleiswyr sydd wedi colli eu golwg.

**Etholiadau mis Mai 2021: arolwg staff gorsafoedd pleidleisio**

Gwybodaeth am arolwg staff gorsafoedd pleidleisio sy'n ceisio adborth am eu profiadau ar y diwrnod pleidleisio, a dolen ato.

**Etholiadau mis Mai 2021: casglu data ac adborth wedi'r etholiadau**

Gwybodaeth am sut mae cyflwyno adborth a data wedi etholiadau mis Mai.

Mae RNIB wedi rhannu canllaw a fideo gyda chynghorion ar gyfer pobl sydd wedi colli eu golwg. Mae'r rhain wedi eu dylunio ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio i'w helpu i gefnogi pleidleiswyr sydd wedi colli eu golwg.

## Etholiadau mis Mai 2021: arolwg staff gorsafoedd pleidleisio

Rydym yn gweithio gyda dau academydd, Alistair Clark (Prifysgol Newcastle) a Toby James (Prifysgol East Anglia), ar arolwg i staff gorsafoedd pleidleisio.

Mae'r arolwg wedi ei ddylunio i gasglu adborth gan staff ynghylch eu profiadau ar y diwrnod pleidleisio, gyda ffocws penodol ar effaith y mesurau sydd ar waith eleni mewn perthynas â COVID-19. Bydd yr arolwg yn cael ei gynnal rhwng 6 Mai a 11 Mehefin. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o ganfyddiadau'r arolwg mewn Bwletin yn y dyfodol.

Byddem yn gwerthfawrogi eich help wrth rannu'r arolwg hwn gyda'ch staff gorsafoedd pleidleisio. I'ch cefnogi chi wrth i chi wneud hyn, rydym wedi creu adnodd un-dudalen sy'n cynnwys cod QR sganadwy. Byddai staff gorsafoedd pleidleisio yn gallu sganio'r cod gyda ffôn clyfar a chwblhau'r arolwg ar-lein gyda'u dyfais. Bydd y ddolen i'r arolwg yn mynd yn fyw brynhawn y diwrnod pleidleisio. Fel arall, yn yr wythnos ar ôl y diwrnod pleidleisio byddwn yn darparu dolen i'r arolwg ar-lein, y gallech chi wedyn ei he-bostio at staff gorsafoedd pleidleisio.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr arolwg hwn, cysylltwch â researchsurvey@electoralcommission.org.uk.

## Etholiadau mis Mai 2021: casglu data ac adborth wedi'r etholiadau

Megis mewn etholiadau blaenorol, byddwn unwaith eto'n casglu adborth a data ynghylch gweinyddu'r etholiadau.

### Adborth gweinyddu etholiadol

Mae eich adborth yn bwysig i ni - bydd nid yn unig yn llywio ein hadroddiadau wedi'r etholiad, ond bydd hefyd yn ein helpu i wella'r modd yr ydym yn eich cefnogi i gyflawni etholiadau llwyddiannus yn y dyfodol. Bydd yr arolwg yn debyg i rheiny a ddosbarthwyd ar ôl etholiadau blaenorol, a bydd yn ceisio eich safbwyntiau ar wahanol agweddau ar yr etholiad, gan gynnwys cofrestru pleidleiswyr, enwebiadau, y diwrnod pleidleisio a'r cyfrif. Eleni, hoffem hefyd glywed am sut y gwnaethoch ddelio gydag effaith COVID-19 yn eich ardal, a sut yr effeithiodd hyn ar eich gwaith yn ystod yr etholiadau. Byddwn hefyd yn gofyn am eich meddyliau ynghylch y canllawiau a'r cymorth a ddarperir gan y Comisiwn.

Bydd dolen i'r arolwg yn mynd yn fyw ddydd Llun 10 Mai, a'r dyddiad cau ar gyfer ei gwblhau fydd dydd Gwener 11 Mehefin.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr arolwg adborth, cysylltwch â researchsurvey@electoralcommission.org.uk.

### Casglu data

Fel yr amlygwyd ym Mwletin293, byddwn unwaith eto'n casglu data gweinyddol hanfodol gan Swyddogion Canlyniadau. Mae'r data hwn

**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol Bwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael fan hyn. Gallwch hefyd danysgrifio i'n Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cael ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.**

yn darparu tystiolaeth bwysig i gefnogi ein gwaith wrth adrodd ar etholiadau yn y DU.

Fel y gwnaethom yn etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2019, byddwn yn defnyddio porth ar-lein i gasglu'r data. Rydym wedi creu canllaw i ddefnyddwyr i'ch helpu i ddefnyddio'r porth, sy'n cynnwys y manylion cyswllt rydym yn bwriadu eu defnyddio i'ch gwahodd i lenwi'r data (noder bod cyfeiriadau e-bost ond yn cael eu dangos pan fônt yn gysylltiadau blwch post generig). Rhowch wybod i ni os ydych yn credu bod gennym gyfeiriad e-bost anghywir wedi'i restru ar gyfer eich tîm. Bydd unrhyw un gyda chofrestriad cyfredol yn derbyn e-bost heddiw (dydd Mercher 21 Ebrill).

Byddwn yn anfon e-byst i'ch gwahodd i gyflwyno eich data ar 12 Mai, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno data fydd dydd Llun 21 Mehefin.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr arolwg hwn, cysylltwch â research@electoralcommission.org.uk.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2021